# Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher - 09.10.19 - yn Y Ganolfan, Llwyngwril

**Presennol:** Huw Davies (Cadeirydd), Ian Williams, Keith Carroll, Kevin Goodchild, Geraint Edwards, Geraint Micah, Glenda Edwards (Clerc).

1. **Croeso'r Cadeirydd**: Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. **Ymddiheuriadau:** John Griffiths, David Griffiths, Dylan Thomas, Louise Hughes (Cynghorydd Sirol).

3. **Cadarnhau'r Cofnodion Blaenorol:** Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y **11.09.19** fel rhai cywir.
   **Cynnig –** Kevin Goodchild **Eilio –** Keith Carroll **Arwyddwyd –** Huw Davies.

4. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol (11.09.19):**

   **a)** **Sedd Wag Achlysurol -** Swyddog Cofrestru Cyngor Gwynedd wedi anfon "Rhybudd o Sedd Wag Achlysurol ar y Cyngor Cymuned", i gael ei arddangos ar yr hysbysfwrdd yn Llwyngwril, Rhoslefain ac ar wefan y Cyngor Cymuned tan **25.10.19.** Swyddog Cofrestri Cyngor Gwynedd i gadarnhau'r sefyllfa wedi'r cyfnod penodol.

   **b)** **Llwybr y Traeth** - ger Borthwen/Llwybr y Perthi - ateb wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd yn cadarnhau y byddent yn trefnu arolygiad o'r llwybr yma yn y dyfodol agos.

5. **Gohebiaeth:**

   **a)** Treialon Cwn Defaid Cenedlaethol Cymru 2020: cais am gyfraniad ariannol -
   ➞ gwnaed benderfyniad i beidio â chefnogi'r cais yma.
   **b)** Gwerthiant Tir ger maes parcio Tyn y Buarth, Llwyngwril: llythyr wedi ei dderbyn gan aelod o'r gymuned yn cwestiynu pam mai dim ond rhai aelodau o'r gymuned sydd yn cael y cynnig i brynu'r tir yma gan Gyngor Gwynedd ???

6. **Materion Cynllunio:** Dim

7. **Adroddiad Ariannol**: Adolygiad Ariannol wedi ei wneud.
   Derbyniwyd Adroddiad Mis Medi 2019 yn gywir.
   **Cynnig –** Ian Williams **Eilio –** Huw Davies **Arwyddwyd –** Huw Davies.

   **a)** Siec 100758 – Marie Curie = £50.00.
   **b)** Siec 100759 – Poppy Appeal = £40.00.

Archwiliad ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31.03.19 wedi ei gwblhau gan BDO ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru.

**a)** Ffurflen Flynyddol wedi ei chyflwyno i aelodau'r cyngor cymuned
**b)** Ffurflen Flynyddol wedi ei chymeradwyo a'i derbyn gan aelodau'r cyngor.
**c)** Adroddiad "materion yn codi" wedi ei chyflwyno i'r aelodau.
Un mater mân wedi ei nodi, ac wedi ei drafod yn y cyfarfod.
**d)** Ffurflen Flynyddol ag "Hysbysiad Diwedd yr Archwiliad" i gael eu harddangos ar hysbysfwrdd y cyngor cymuned yn Llwyngwril, Rhoslefain ag ar wefan y cyngor cymuned am 14 diwrnod.

**8. <u>Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr</u>:** Dim

**9. <u>Adroddiad y Cynghorydd Sirol</u>:** Dim yn bresennol.

**10. <u>Unrhyw Fater Arall</u>:**

**a)** **"Wreath"** – wedi cael ei archebu erbyn gwasanaeth Sul y Cofio yn Eglwys Llwyngwril
**Penderfyniad** ➞ Rhodd o £40.00 i'r Poppy Appeal. **Cynnig:** Kevin Goodchild **Eilio:** Keith Carroll.
**b)** **Biniau Halen i gael eu llenwi:** Ffordd Prysgau Isaf ? ➞ Kevin wedi cynnig edrych os oes angen ei lenwi.
**c)** **Matiau du yn y Cae Chwarae:** mewn cyflwr gwael - angen mynd ar ôl G L Jones eto ynglŷn â rhoi "pressure wash" iddynt. Hefyd gofyn am eu hadroddiad a'u cyngor ynglŷn â'r matiau yma.
**d)** **Cae Chwarae Llwyngwril:** adroddiad wedi ei dderbyn fod yr ardd fach ger gatiau'r cae chwarae yn edrych yn flêr ac angen ei chlirio ➞ Huw Davies wedi cynnig torri a chlirio'r ardd.
**e)** **Coed Nadolig:** gofyn i John Griffiths gysylltu â Gwanas i archebu coeden i Roslefain.
Cysylltu ag Emlyn Roberts, i archebu coeden i Lwyngwril eto eleni.
**f)** **Cerrig Filltir Hanesyddol:** adroddiad wedi ei dderbyn fod yr arwyddion ochr allan i Roslefain a Llwyngwril yn edrych yn flêr ac angen côt o baent!
**Penderfyniad** ➞ cysylltu â Chyngor Gwynedd.
**g)** **Rhwystrau diogelwch ger Friog:** dal i aros i gael gwybod pryd fydd y gwaith yn cael ei wneud
**Penderfyniad** ➞ gofyn i Network Rail rhoi diweddariad o'r sefyllfa i'r Cyngor Cymuned.

## <u>Dyddiad y Cyfarfod Nesaf :- Nos Fercher – 13.11.19 - am 7 o'r gloch yn y Ganolfan</u>

**<u>Arwyddwyd</u>**
**Cadeirydd ……………………………………………………………………………………………………… Dyddiad: 13.11.19**